Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)

## Crynodeb o'r Bil

Hydref 2025



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)

## Crynodeb o'r Bil

Hydref 2025

**Awdur:**
Andrew Minnis and Dr Katy Orford

Mae'r briff hwn yn darparu gwybodaeth gefndirol am rasio milgwn ym Mhrydain Fawr a datblygu'r polisi yng Nghymru. Mae'n crynhoi darpariaethau'r Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru).

# Contents

**1. Cyflwyniad** ..... **1**

**2. Cefndir** ..... **1**

Pa mor gyffredin yw rasio milgwn ..... 1

Rheoleiddio rasio milgwn ym Mhrydain Fawr ..... 2

Bwrdd Milgwn Prydain Fawr ..... 3

Datblygu'r polisi yng Nghymru ..... 3

Galwadau am waharddiad ..... 3

Gwrth-ddeiseb i gefnogi rasio milgwn yng Nghymru ..... 4

Ymgynghoriad ar drwyddedu gweithgareddau anifeiliaid a symudiadau i waharddiad ..... 4

Yr Alban a Lloegr ..... 5

**3. Y Bil** ..... **7**

Crynodeb o'r darpariaethau ..... 7

# 1. Cyflwyniad

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y **Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)** i'r Senedd ar 29 Medi 2025.

Os caiff ei ddeddfu, bydd y Bil yn ei gwneud yn drosedd gweithredu stadiwm (neu leoliad tebyg) ar gyfer rasio milgwn yng Nghymru. Bydd hefyd yn ei gwneud yn drosedd i fod yn rhan o drefnu rasio milgwn yng Nghymru. Caiff "rasio milgwn" ei diffinio fel gosod milgwn i redeg o amgylch trac ar drywydd atyniad sy'n cael ei reoli'n fecanyddol. Mae'n cynnwys amseru neu hyfforddi milgi wrth iddo redeg o amgylch trac

Mae'r **Memorandwm Esboniadol** (y Memorandwm) yn nodi rhesymeg Llywodraeth Cymru dros y gwaharddiad, sy'n seiliedig ar les anifeiliaid a rhesymau moesegol:

> Mae cefnogaeth sylweddol gan randdeiliaid a'r cyhoedd i wahardd rasio milgwn, wedi'i sbarduno gan bryderon am les anifeiliaid. Mae llawer yn credu bod angen dod â'r arfer i ben er mwyn amddiffyn milgwn rhag niwed, ecsbloetio a masnachu. Mae pryderon lles a godwyd gan randdeiliaid38 yn cynnwys y gyfradd anafiadau a marwolaethau, ewthanasia, gorfridio a darpariaethau annigonol ar gyfer gofal ar ôl rasio ac ymddeol.
>
> Y tu hwnt i'r materion lles, mae dadl foesol hefyd yn cael ei chyflwyno dros waharddiad, sy'n adlewyrchu gwerthoedd esblygol cymdeithas ynghylch trin anifeiliaid yn foesegol a'r ffaith bod y drwydded gymdeithasol ar gyfer diwydiannau yr ystyrir eu bod yn dibynnu ar ddioddefaint anifeiliaid ar gyfer adloniant yn dirywio. O ganlyniad i hyn, ystyrir ei bod yn fwyfwy anodd cyfiawnhau gwneud milgwn yn agored i niwed drwy rasio.

# 2. Cefndir

## Pa mor gyffredin yw rasio milgwn

Mae Cymru yn un o 10 gwlad yn y byd lle mae rasio milgwn masnachol yn dal i fod yn gyfreithlon - y lleill yw Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon, Awstralia, Seland Newydd, Mecsico, Fietnam ac UDA. Fodd bynnag, mae gwaharddiadau ar waith yn sawl un o daleithiau'r Unol Daleithiau ac yn Nhiriogaeth Prifddinas Awstralia, ac mae gwaharddiad ar y gweill yn Seland Newydd.

Caiff rasio milgwn ym Mhrydain Fawr ei weithredu'n fasnachol yn bennaf o dan nawdd **Bwrdd Milgwn Prydain Fawr** (GBGB). Mae **gwefan GBGB yn rhestru** 19

stadiwm wedi'u trwyddedu gan GBGB ledled y wlad, gyda 18 yn Lloegr ac un yng Nghymru.

Yn hanesyddol, mae rasio hefyd wedi digwydd ar yr hyn a elwir yn **draciau fflapio** annibynnol - lleoliadau amatur lle cynhelir rasio ar sail gymharol anffurfiol. Nid ydynt yn ddarostyngedig i safonau lles anifeiliaid GBGB. **Stadiwm Thornton yn yr Alban** yw'r trac fflapio olaf ym Mhrydain Fawr.

Mae gan Gymru un trac milgwn gweithredol – **Stadiwm Milgwn Valley** yn Ystrad Mynach, sef trac sy'n cael ei reoleiddio gan GBGB. Mae'r Memorandwm i'r Bil yn nodi yr agorodd ym 1976. Bu'n gweithredu fel trac fflapio tan 2023 pan ddaeth yn aelod o GBGB.

Yn ogystal â'r trac, dywed y Memorandwm:

> Rydym ar ddeall bod 10 hyfforddwr milgwn wedi'u lleoli yng Nghymru ar hyn o bryd sydd wedi'u trwyddedu gyda'r GBGB. Mae'r hyfforddwyr hyn yn rasio eu milgwn yn Valley yn bennaf. Mae cyfanswm o 12 hyfforddwr, dau ohonynt wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, yn gysylltiedig â'r stadiwm, gyda thua 265 o filgwn yn gymwys i rasio yn Valley.

## Rheoleiddio rasio milgwn ym Mhrydain Fawr

Yng Nghymru, nid oes deddfwriaeth benodol sy'n ymdrin â lles milgwn rasio. Yn hytrach, daw eu lles yn dod o dan gwmpas deddfwriaeth lles anifeiliaid ehangach – yn enwedig y ***Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006*** (Deddf 2006) sy'n gymwys i Gymru a Lloegr.

Er nad yw'n statudol, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cymeradwyo'r **Cod Ymarfer Gwirfoddol: Lles Milgwn Rasio (Cymru)**, a luniwyd gan **Rwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru**.

Mae'r sefyllfa yn yr Alban yn debyg i Gymru, heb unrhyw ddeddfwriaeth benodol yn llywodraethu rasio cŵn. Mae milgwn yn dod o dan ddeddfwriaeth gyffredinol lles anifeiliaid, yn arbennig ***Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid (Yr Alban) 2006.***

Mae deddfwriaeth ychwanegol yn gymwys yn Lloegr, pan fo **Rheoliadau Lles Milgwn Rasio 2010 (Rheoliadau 2010)** wedi'u gwneud o dan Ddeddf 2006. Mae'r rhain yn darparu bod yn rhaid i bob gweithredwr traciau rasio milgwn gael trwydded i amddiffyn lles milgwn.

### Bwrdd Milgwn Prydain Fawr

**Bwrdd Milgwn Prydain Fawr (GBGB)** yw'r corff rheoleiddio ar gyfer rasio milgwn trwyddedig ym Mhrydain Fawr. Mae'n ddarostyngedig i hunanreoleiddio o dan **Wasanaeth Achredu'r DU** (UKAS).

Mae GBGB yn rheoleiddio rasio milgwn mewn stadiymau drwy **drefniadau trwyddedu** sy'n cwmpasu ystod o feysydd gan gynnwys: **caeau rasio; llawfeddygon milfeddygol**; a **hyfforddwyr a staff llety cŵn. Mae'n rhaid cofrestru milgwn a pherchnogion milgwn.**

Mae GBGB wedi sefydlu ystod o **bolisïau a gweithdrefnau**, ac mae'n rhaid cydymffurfio â'i **reolau rasio.** Mae'n gweithredu cynlluniau lles, fel y **Cynllun Ymddeol Milgwn a'r Cynllun Adferiad yn dilyn Anaf.** Cyhoeddodd ei strategaeth lles hirdymor, **A Good Life for Every Greyhound**, yn 2022.

## Datblygu'r polisi yng Nghymru

Nid oedd y **diweddariad i Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2021** ar gyfer y Chweched Senedd yn cyfeirio at wahardd rasio milgwn, nac yn benodol at ei reoleiddio fwyfwy. Fodd bynnag, roedd yn cynnwys **ymrwymiad i** datblygu "model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid".

Roedd **Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021 i 2026,** a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021, yn cynnig ymgynghori ynghylch "trwyddedu gweithgareddau sy'n ymwneud ag anifeiliaid, o bosibl gan gynnwys... rasio milgwn".

### Galwadau am waharddiad

Ym mis Mawrth 2022, cyn i GBGB drwyddedu Stadiwm Valley, dechreuodd Pwyllgor Deisebau'r Senedd drafod **deiseb yn galw am wahardd rasio milgwn yng Nghymru** yn seiliedig ar bryderon ynghylch lles anifeiliaid. Casglodd y ddeiseb, a gyflwynwyd gan Hope Rescue, 35,101 o lofnodion, ac roedd 18,707 ohonynt o Gymru.

Ar ôl cymryd tystiolaeth o blaid ac yn erbyn gwaharddiad, cyhoeddodd ei adroddiad, **Y Troad Terfynol,** ym mis Rhagfyr 2022.

Roedd "casgliad mwyafrifol" y Pwyllgor yn cefnogi galwadau am waharddiad.

Roedd gan un aelod bryderon ynglŷn â gwneud hynny. Argymhellodd y Pwyllgor y canlynol:

- blaenoriaethu trwyddedu rasio milgwn fel rhan o Gynllun Lles Anifeiliaid Llywodraeth Cymru;
- "gwaharddiad graddol," a gefnogwyd gan "fwyafrif yr Aelodau";
- angen i "ystyried oes gyfan cŵn" a'r amodau y cânt eu cadw ynddynt cyn ac ar ôl eu gyrfaoedd rasio, gan gynnwys cŵn yn teithio drwy Gymru ar eu ffordd i rasys;
- angen i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn destun "ymgynghoriad eang", a bod cyngor ar gydymffurfio ag unrhyw newidiadau yn cael ei ddarparu i'r rheini yn y diwydiant; ac
- wrth ystyried gwaharddiad, "dylai Llywodraeth Cymru hefyd edrych ar chwaraeon eraill lle mae anifeiliaid yn cystadlu".

Derbyniodd **Llywodraeth Cymru** argymhelliad y mwyafrif "mewn egwyddor" i gyflwyno gwaharddiad graddol ar rasio. Ymrwymodd i gynnwys cwestiwn ar waharddiad ac opsiwn trwyddedug yn ei hymgynghoriad arfaethedig ar drwyddedu gweithgareddau anifeiliaid. Derbyniwyd yr argymhellion sy'n weddill, ac eithrio'r argymhelliad i ystyried "chwaraeon eraill lle mae anifeiliaid yn cystadlu", a wrthodwyd.

Roedd adroddiad y Pwyllgor yn destun **dadl yn y Cyfarfod Llawn** ar 8 Mawrth 2023.

## Gwrth-ddeiseb i gefnogi rasio milgwn yng Nghymru

Cafodd **gwrth-ddeiseb** yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi rasio milgwn 10,601 o lofnodion, gyda 2,948 ohonynt **o Gymru**. Fe'i trafodwyd gyntaf gan y Pwyllgor ym mis Medi 2023.

Fe wnaeth y Pwyllgor **gau'r ddwy ddeiseb** ym mis Mawrth 2025 yn dilyn cyhoeddi cynllun Llywodraeth Cymru i wahardd rasio milgwn (gweler isod).

## Ymgynghoriad ar drwyddedu gweithgareddau anifeiliaid a symudiadau i waharddiad

Ym mis Tachwedd 2023, agorodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynghylch **trwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid**. Roedd hyn yn cynnwys dau gwestiwn am rasio milgwn:

- Gofynnodd cwestiwn 4 "a ddylid trwyddedu perchnogion a/neu geidwaid neu hyfforddwyr cŵn rasio (gan gynnwys milgwn)"; a
- Gofynnodd cwestiwn 5 i ymatebwyr "gyflwyno tystiolaeth i gyfiawnhau neu wrthod ystyried gwaharddiad graddol ar rasio milgwn yn y dyfodol".

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **grynodeb o'r ymatebion** ym mis Rhagfyr 2024. O ran trwyddedu, roedd 55.5% o'r ymatebwyr o blaid a 40.6% yn erbyn. Roedd mwyafrif o'r rhai nad oeddent o blaid hyn yn rhai nad ydynt yn gefnogi'r diwydiant.

O ran gwaharddiad, roedd 64.7% o blaid gwaharddiad graddol, 25.1% yn erbyn (roedd 1.5% o'r rhain o blaid gwaharddiad ar unwaith).

Mae'r Memorandwm yn dweud bod y rhai sydd o blaid gwaharddiad yn nodi'n gyffredin eu pryderon am les, "camfanteisio ar filgwn" a "chanlyniadau gwael ar ôl eu gyrfa rasio". Yn gyffredinol, roedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu gwaharddiad yn nodi "effaith economaidd a diwylliannol".

Ar 18 Chwefror 2025, cyhoeddodd Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig (yr Ysgrifennydd Cabinet), **gynlluniau** i wahardd rasio milgwn yng Nghymru. Roedd y penderfyniad yn **rhan o gytundeb** gyda Jane Dodds AS i sicrhau y câi cyllideb 2025-26 Llywodraeth Cymru ei phasio.

Yna **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb** i'r ymgynghoriad ym mis Mehefin 2025.

Ar 11 Gorffennaf, **cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet** y byddai "grŵp gweithredu i lywio'r trawsnewidiad tuag at waharddiad ar rasio milgwn yng Nghymru" yn cael ei sefydlu. Dywedodd y bydd y grŵp yn cynrychioli "sbectrwm eang o'r diwydiant rasio milgwn, iechyd a lles anifeiliaid, a sectorau cymdeithasol a chymunedol".

Ar 16 Mai, **cyhoeddodd GBGB** fod adolygiad barnwrol o'r penderfyniad i wahardd rasio milgwn wedi'i gyflwyno, gyda chefnogaeth gan ystod o gyrff y diwydiant.

## Yr Alban a Lloegr

**Mae deiseb a gyflwynwyd i Senedd yr Alban yn 2019** yn galw am ddiwedd ar rasio milgwn yn yr Alban wedi casglu dros 29,000 o lofnodion hyd yn hyn. Trafodwyd y ddeiseb **gan y Pwyllgor Materion Gwledig ac Ynysoedd.**.

I gefnogi'r gwaith hwn, cyhoeddodd Comisiwn Lles Anifeiliaid yr Alban (SAWC)

adroddiad ar **les milgwn a ddefnyddir ar gyfer rasio yn yr Alban,** a drafododd bob agwedd ar fywydau'r cŵn. Yn sgil adroddiad SAWC, **cyflwynodd GBGB ymateb** yn herio elfennau o'i gynnwys.

Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Gwledig **adroddiad interim am y ddeiseb**. Nododd sylwadau gan Weinidog yr Alban dros Amaethyddiaeth a Chysylltedd nad yw Llywodraeth yr Alban wedi'i hargyhoeddi o'r angen i wahardd rasio milgwn yn yr Alban.

Ym mis Chwefror 2024, sicrhaodd Mark Ruskell AS yr hawl i **cyflwyno Bil Aelod** yn gwahardd rasio milgwn i Senedd yr Alban. Cyflwynwyd **Bil Rasio Milgwn (Troseddau) (Yr Alban)** ym mis Ebrill 2025. Os caiff ei basio, bydd yn ei gwneud yn anghyfreithlon i rywun sy'n berchen ar filgi neu drac rasio, neu sy'n gyfrifol amdanynt, rasio, neu ganiatáu rasio, milgi ar drac rasio hirgrwn yn yr Alban.

Fe wnaeth Llywodraeth yr Alban **ysgrifennu at Gynullydd** Pwyllgor Materion Gwledig Senedd yr Alban ar 29 Awst i ddweud y bydd yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

Ar 27 Chwefror 2025, yn dilyn cyhoeddi cynlluniau ar gyfer gwaharddiad yng Nghymru, dywedodd y Gwir Anrhydeddus Lisa Nandy AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, **wrth Senedd y DU,** mewn perthynas â galwadau am waharddiad yn Lloegr:

> We have absolutely no plans whatsoever to ban greyhound racing. We appreciate the joy it brings to many, many people in our country and the economic contribution it makes.

# 3. Y Bil

## Crynodeb o'r darpariaethau

Mae **adran 1** yn cyflwyno dwy drosedd newydd sy'n gwahardd:

- gweithredwr stadiwm neu leoliad tebyg yng Nghymru rhag ei ddefnyddio, neu dan wybod iddo rhag caniatáu iddo gael ei ddefnyddio, i rasio milgwn; a
- pherson rhag bod ynghlwm wrth drefnu rasio milgwn yng Nghymru (mae'r Nodiadau Esboniadol yn datgan a yw hyn mewn stadiwm neu leoliad tebyg, neu unrhyw le arall, er enghraifft ar dir agored).

Mae person sy'n euog o'r troseddau hyn yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy (nad yw'r Bil yn rhoi terfyn uchaf arni).

Mae **adran 2** yn diffinio'r termau 'rasio milgwn' a 'gweithredwr'.

Mae **adran 3** yn cyflwyno Atodlen 1 i'r Bil sy'n gwneud darpariaeth ynghylch troseddau o dan adran 1 a gyflawnir gan gyrff penodol.

Mae **adran 4** yn cyflwyno Atodlen 2 i'r Bil sy'n gwneud darpariaeth ynghylch gorfodi'r troseddau o dan adran 1.

Mae **adran 5** yn nodi pryd y daw pob darpariaeth yn y Bil i rym. Byddai'r gwaharddiad ar rasio milgwn yn dod i rym dim cynt na 1 Ebrill 2027 a dim hwyrach na 1 Ebrill 2030.

Mae **adran 6** yn darparu'r enw byr sef "Deddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) 2026", neu "Prohibition of Greyhound Racing (Wales) Act 2026".

**Yr Atodlenni:**

Mae **Atodlen 1** yn gwneud darpariaeth ynghylch troseddau o dan adran 1:

- Mae **paragraff 1** yn nodi y gall unigolion penodol fod yn agored yn droseddol am y drosedd yn adran 1 pan fo'r drosedd yn cael ei chyflawni gan gyrff penodol (corff corfforedig; partneriaeth; neu gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth). Er enghraifft, gallai cyfarwyddwr cwmni hefyd fod yn agored yn droseddol am drosedd a gyflawnwyd gan y cwmni.
- Mae **paragraff 2** yn nodi sut y dylid dwyn achos yn erbyn partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig yr honnir eu bod wedi cyflawni trosedd o dan adran 1.

Mae **Atodlen 2** yn gwneud darpariaeth ynghylch pwerau gorfodi:

- Mae **paragraff 1** yn darparu dehongliad o'r termau 'arolygydd' (a benodir gan Weinidogion Cymru neu gan gynghorau sir, neu gynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, i orfodi'r troseddau yn adran 1), 'pŵer mynediad' a 'mangre'.
- Mae **paragraff 2** yn rhoi pŵer i arolygwyr i fynd i fangreoedd nad ydynt yn anheddau, pan fo rheswm dros amau bod trosedd o dan adran 1 yn cael ei chyflawni, wedi'i chyflawni neu ar fin cael ei chyflawni, neu y gellir dod o hyd i dystiolaeth bod trosedd yn cael ei chyflawni, wedi'i chyflawni neu ar fin cael ei chyflawni.
- Mae **paragraff 3** yn rhoi pŵer i arolygwyr i fynd i anheddau. Dim ond os yw'r meddiannydd neu'r person sy'n gyfrifol am y fangre yn cydsynio, neu os yw'r arolygydd yn cael gwarant gan Ynad Heddwch, y caiff yr arolygydd ddefnyddio'r pŵer hwn.
- Mae **paragraff 4** yn darparu bod gwarant o'r fath yn awdurdodi mynd i'r fangre unwaith yn unig a bod yn rhaid ei defnyddio o fewn 28 o ddiwrnodau o'r dyddiad y'i dyroddwyd.
- Mae **paragraffau 5, 6, 7 ac 8** yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch y pwerau i fynd i fangre. Mae hyn yn cynnwys y caiff arolygydd fynd â phersonau priodol eraill i'r fangre.
- Mae **paragraff 9** yn disgrifio'r pwerau arolygu, chwilio ac ymafael sydd ar gael i arolygydd wrth arfer pŵer mynediad.
- Mae **paragraff 10** yn darparu y caiff person sy'n dod i'r fangre gyda'r arolygydd ddefnyddio pwerau'r arolygydd o dan baragraff 9, ar yr amod ei fod o dan oruchwyliaeth yr arolygydd.
- Mae **paragraff 11** yn gwneud darpariaeth ychwanegol ynghylch y pŵer ymafael.
- Mae **paragraff 12** yn darparu bod person yn cyflawni trosedd os yw'n methu â chydymffurfio â chais arolygydd am gymorth neu'n rhwystro arolygydd yn fwriadol. Gall trosedd o dan y paragraff hwn fod yn destun achos yn Llys yr Ynadon, a gaiff osod dirwy (nad yw'r Bil yn rhoi terfyn arni) os ceir y person yn euog.
- Mae **paragraff 13** yn amddiffyn arolygwyr a phobl y mae arolygwyr yn mynd â nhw i fangre rhag atebolrwydd sifil neu droseddol am unrhyw beth a wneir o ganlyniad i gyflawni eu dyletswyddau. Rhaid i'r llys fod yn fodlon bod y weithred wedi'i chyflawni yn ddidwyll a bod sail resymol dros ei chyflawni.